



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire



1872 PRIFYSGOL
ABERYSTWYTH
UNIVERSITY



£90

8-12 Awst

Cwrs Cymraeg Proffesiynol 2022

Cwrs Carlam o Bell 5 diwrnod drwy Zoom i siaradwyr rhugl

8-12 Awst 2022



CYMRAG

Dysgu
Learn

Nod y Cwrs

Mae'r cwrs Cymraeg Proffesiynol yn gyfle gwyb i siaradwyr rhugl wella eu sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd proffesiynol yn ogystal â magu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith neu yn y gymuned

Cyfle Gwerthfawr

Mae gan gwrs o'r math hwn fanteision i weithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd:

I'r gweithiwr:

- Cyfle i finio sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu ar gyfer gweithle dwyieithog.
- Cyfle i fagu hyder wrth gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

I'r cyflogwr:

- Arfogi gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhugl yn y gweithle.
- Cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg.

Gweler [llawlyfr y cwrs](#) fan hyn.



Amcanion

Yn ystod y cwrs cewch gyfle i wneud nifer o'r pethau a restrir isod gan flaenoriaethu yn ôl anghenion yr unigolion yn y grŵp:

- Cyfle i finio sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu ar gyfer gweithle dwyieithog.
- Dysgu sut i ddefnyddio geiriaduron a chael cymorth iaith ar lein.
- Ymarfer llunio adroddiadau byr, a chymryd rhan mewn cyfarfodydd.
- Ymarfer tasgau iaith sydd yn berthnasol ar gyfer sefyllfaoedd gwaith, gan gynnwys cyfieithu darnau byrion, crynhoi trafodaeth Saesneg yn y Gymraeg, ac ysgrifennu llythyr neu e-bost yn mynegi safbwynt.
- Edrych ar nodweddion testunau cyffredin yn y gweithle
- Cyfarfod ar-lein â siaradwyr gwadd i drafod agweddau ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwaith proffesiynol.





Strwythur y Cwrs

Bydd y cwrs yn cael ei ddysgu gan diwtor profiadol ac ymroddgar drwy gyfrwng yr ap fideogynadleda Zoom, llwyfan dibynadwy a diogel y mae gennym brofiad o'i ddefnyddio ar gyfer addysgu o bell.

Bydd pedair awr o sesiynau dysgu ar Zoom bob dydd, a byddwn yn gosod gwaith dysgu personol i chi am tua 2.5 awr bob dydd, e.e. darnau darllen, tasgau ysgrifennu ac ymarferion iaith.


09:00 - 10:30 11:30 - 13:00 16:00 - 17:00	Sesiynau dysgu a gweithdai ymarferol gyda'r tiwtor a siaradwyr gwadd ar Zoom
Prynhawn	Dysgu personol, a derbyn adborth a chymorth gan y tiwtor drwy ebost neu Zoom
Gyda'r nos	Gweithgaredd anffurfiol ar Zoom ddwy noson yr wythnos

Employees

Employees who undertake Welsh courses, especially at proficiency level, gain confidence in using the language with customers, and also gain new skills and self-assurance that can lead to promotion and / or new opportunities.

Employers

Whether big or small, employers can benefit by providing a bilingual service to their customers, and by having a workforce that is confident in using Welsh with the public.



Cofrestru a thalu

Cost y cwrs 5 diwrnod hwn yw £90. Cynigir gostyngiad o 40% i bensiynwyr sy'n derbyn credyd pensiwn, myfyrwyr llawn amser ac unigolion sy'n hawlio budd-daliadau a lwfans cyflogaeth. Mynegwch eich diddordeb drwy gwblhau'r ffurflen ar-lein isod cyn 10 Mehefin 2022:

Cymraeg Proffesiynol: [Dolen i gofrestru](#)

Ar ôl i chi fynegi eich diddordeb, byddwn mewn cysylltiad â chi. Mae lle yn gyfyngedig ar y cwrs, felly nid yw mynegi diddordeb yn sicrhau lle. Ar ôl i ni asesu eich cais, byddwn yn gofyn am daliad o £90/£54 (ar-lein neu dros y ffôn). Taliad sydd yn sicrhau eich lle ar y cwrs.

Cysylltu â ni


Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys Sir Gâr

dysgucymraeg@aber.ac.uk

learnwelsh@aber.ac.uk

0800 876 6975

Y ffordd orau i gysylltu â ni yw drwy ebost - byddwn yn ymateb o fewn un diwrnod gwaith.





dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire



1872 PRIFYSGOL
ABERYSTWYTH
UNIVERSITY